Aflonyddu Rhywiol a Chyffredinol

POLISI A GWEITHDREFN

Dyddiad Mabwysiadu: 26 Hydref 2026

Dyddiad Adolygu: 26 Hydref 2028

Diben a Chwmpas

Nod y Polisi a'r Weithdrefn hon yw rhoi gwybod i aelodau etholedig, gweithwyr, gwirfoddolwyr a chontractwyr am y mathau o ymddygiad a ystyrir yn annerbyniol, a darparu dull o geisio iawn i'r rhai sy'n profi aflonyddwch personol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl aelodau etholedig, gweithwyr, gwirfoddolwyr a chontractwyr Cyngor Tref Dinbych.

Egwyddorion

Mae Cyngor Tref Dinbych yn cydnabod bod aflonyddu ac erledigaeth yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae aflonyddu neu erledigaeth ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol yn annerbyniol ac ni fydd yn cael ei oddef.

Gall aflonyddu personol fod ar sawl ffurf, o jôcs amhriodol a sylwadau sarhaus i boeni rhywun yn barhaus, ymddygiad bygythiol a cham-drin corfforol. Mae'r polisi hwn hefyd yn cynnwys bwlio, sy'n golygu ymddygiad wedi'i dargedu, parhaus a sarhaus sy'n tanseilio, bychanu neu niweidio'r sawl sy'n ei dderbyn. Beth bynnag fo'i ffurf, caiff aflonyddu personol ei gymryd o ddifrif ac ni fydd yn cael ei oddef.

Mae Cyngor Tref Dinbych yn cydnabod y gall aflonyddu ddigwydd yn y gweithle a'r tu allan iddo, gan effeithio'n negyddol ar lesiant a pherfformiad gwaith aelodau etholedig, gweithwyr a gwirfoddolwyr. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith cefnogol a pharchus, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn.

Enghreifftiau o Aflonyddu Personol

Mae aflonyddu personol yn cynnwys ymddygiad digroeso gan un unigolyn tuag at unigolyn arall. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Jôcs a phranciau ansensitif.
- Sylwadau anweddus neu sarhaus.
- Eithrio rhywun yn fwriadol o sgyrsiau.
- Arddangos deunyddiau neu ysgrifennu sarhaus.
- Ymddygiad sarhaus, bygythiol neu ddilornus.
- Galw enwau ar rywun.
- Sefydlu rhywun i fethu.
- Erlid neu eithrio unigolyn.
- Tanseilio safle neu gyfraniad unigolyn.
- Mynnu bod rhywun yn ymgymryd â llwyth gwaith afresymol.
- Rhwystro cyfleoedd dyrchafiad neu ddatblygiad gyrfa.

Cymerir camau disgyblu yn erbyn unrhyw un y canfyddir ei fod wedi cyflawni aflonyddu personol.

Enghreifftiau o Aflonyddu Rhywiol

Mae aflonyddu rhywiol yn cynnwys ymddygiad digroeso sy'n ymwneud â rhyw neu sydd o natur rywiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Sylwadau anweddus neu amhriodol am ymddangosiad neu gorff rhywun.
- Cyswllt corfforol digroeso o natur rywiol.
- Arddangos deunydd awgrymog yn rhywiol neu ddeunydd sarhaus.
- Gofyn cwestiynau personol neu rywiol ymwthiol.
- Cynigion neu ymdrechion rhywiol, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Mae aflonyddu rhywiol hefyd yn cynnwys trin rhywun yn llai ffafriol am iddo wrthod neu ildio i ymddygiad o'r fath. Gall hyn gynnwys rhwystro dyrchafiad, gwrthod hyfforddiant neu rwystro cyfleoedd eraill i ddatblygu gyrfa.

Enghreifftiau o Erlid

Mae erledigaeth yn digwydd pan gaiff unigolyn ei drin yn annheg am gyflwyno cwyn ddilys ynghylch gwahaniaethu neu aflonyddu. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rhai sy'n cefnogi neu'n cynorthwyo unigolyn arall i gyflwyno cwyn o'r fath.

Aflonyddu gan Drydydd Partïon

Mae gan Gyngor Tref Dinbych bolisi dim goddefgarwch tuag at aflonyddu gan drydydd partïon, gan gynnwys trigolion, cwsmeriaid, defnyddwyr ac ymwelwyr.

Dylid rhoi gwybod am bob digwyddiad yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor. Os canfyddir bod cwyn yn ddilys, cymerir camau priodol, a all gynnwys:

- Rhoi rhybudd i'r unigolyn.
- Gwahardd yr unigolyn rhag dod i eiddo'r Cyngor.
- Rhoi gwybod i'r heddlu am yr ymddygiad.

Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i atal a rhwystro aflonyddu gan drydydd partïon.

Enw: _____Dyddiad: _____

Llofnod: _____ Swydd: _____